

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Medi 1af 2015 yn Ffestri Glanrafon. Yn bresennol oedd Eilir Rowlands (Cadeirydd), Eifion Davies, Iolo Evans, Gwenda Evans, Tina Davies, Gary Thomas, Dewi Pritchard, Alwyn Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alwyn Roberts, Gethin Morris, Maldwyn Jones a Gwenda Morris.

Croesawyd Iolo Evans i'w gyfarfod cyntaf a chydymdeimlwyd a Gwenda Morris a'r teulu yn dilyn eu profedigaeth yn ddiweddar

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a chafwyd yn gywir.

Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Diweddarau'r polisi yswiriant.

Cafwyd cadarnhad gan y clerch bod cofeb rhyfel Llandderfel a wal mynwent Llanfor wedi cael eu hychwanegu i'r polisi.

Archwilio'r mynwentydd.

Yn dilyn yr archwiliadau ym mis Gorffennaf cafwyd diweddariad gan y clerch ar y materion a godwyd:-

- i) Cerrig Beddi - Cytunodd y cynghorwyr i ymweld â'r mynwentydd i ail archwilio'r cerrig a chymryd y camau priodol i'w diogelu.
- ii) Mynwent Llanfor - roedd Cwmni Ciltalgarth wedi cytuno i lenwi'r tyllau yn y fynwent ac roedd perchennog yr Eglwys wedi cytuno i drwsio to'r Lych Gate. Cytunwyd i gael amcan bris am dorri'r coed o amgylch y fynwent a thrafod y mater unwaith bydd pris wedi cael ei dderbyn. Cytunodd Gary Thomas i gysylltu â'r contractwr i drefnu hyn.

Ail strwytho'r gwasanaeth Gofrestru.

Derbyniwyd ymateb i sylwadau'r Cyngor Cymuned ynglŷn â'r newidiadau. Yn anffodus oherwydd y toriadau ariannol mae Cyngor Gwynedd yn eu hwynebu nid oedd posib newid eu penderfyniad i ddileu'r gwasanaeth yn Y Bala.

Ymateb i'r cwynion a anfonwyd i Gyngor Gwynedd/Cartrefi Cymunedol Gwynedd:-

Ystâd Tan y Foel, Llanfor.

Derbyniwyd cadarnhad bod y gweithlu am ymweld â'r safle a thorri'r gordyfiant os yn briodol. Roedd swyddog Cartrefi Cymunedol Gwynedd wedi ymweld â'r stad ac wedi trafod y cwynion am yr eiddo priodol gyda'r trigolion lleol.

Tal meysydd parcio tref Y Bala.

Cafwyd cadarnhad gan y swyddog bod y maes parcio yn y Plase wedi cael ei ail gategorio i un arhosiad byr a ddylai fod yn fwy defnyddiol i ymwelwyr dros dro.

Gasgliadau ailgylchu ym mhentref Llandderfel.

Cafwyd cadarnhad bod y gweithlu wedi cael eu hatgoffa i gynnwys yr anheddau i gyfeiriad Henblas a Cae Pant yn eu casgliadau wythnosol.

Ffordd y Berwyn.

Cafwyd cadarnhad bod y graig wedi cael ei thorri'n ôl a'i marcio. Roedd trefniadau pellach mewn lle i osod arwyddion Araf/Slow ar y ddwy ochr i'r ford i rybuddio'r gywyr ei bod culhau.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn

- i) Derbyniwyd copi o gofnodion y cyfarfod diwethaf.
- ii) Derbyniwyd neges o ddiolch am y cyfraniad ariannol a anfonwyd iddynt ym mis Gorffennaf.

b) Amrywiol

- i) Parc Cenedlaethol – Copi o’i rhaglen cyfarfodydd am 2015-16.
- ii) Cymorth Cynllunio Cymru – Gwybodaeth am eu gweithdy hyfforddiant ar y 21/9/15 ym Mhlas Tan y Bwlch.
- iii) Canmlwyddiant Gwrth Ryfel y Pasg, Iwerddon 1916-2016 – Cafwyd adroddiad o’r trafodaethau sy’n cymryd lle i drefnu gweithgareddau yn Frongoch ar gyfer y canmlwyddiant yn 2016.
- iv) Un Llais Cymru – Rhestr o’r cynigion a gyflwynir i’w trafod yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ar y 3/10/15.
- v) Cyngor Gwynedd – Gwybodaeth am eu sesiynau hyfforddiant Cod Ymddygiad. Cytunodd y clerics fynychu’r cyfarfod ar ran y Cyngor.
- vi) Llywodraeth Cymru - Gwahoddiad i anfon sylwadau am eu dogfen ymgynghori ‘Cyfarwyddiadau Drafft i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Cytunwyd i gymryd golwg dros y ddogfen a pharatoi sylwadau erbyn y cyfarfod ym mis Hydref.

Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio:-

C14/0291/04/LL – Codi 2 tyrbîn gwynt 92.5 m (yn lle 115m). Tir ger Bodelith Isaf, Llandderfel

C15/0813/04/T – Hysbysiad o flaen llaw ar gyfer tynnu mast presennol a chodi mast newydd. Bryn Derw, Glanrafon.

NP5/63/235A - Creu trac mynediad i gerddwyr, ailwampio'r orsaf fedryddu, gosod offer monitor glawiad a gosod tyrbîn gwynt/haul. Gorsaf Fedryddu Cynefail, Capel Celyn.

Yn dilyn trafodaeth helaeth cytunodd y Cyngor i wrthwynebu cais y tyrbînau gwynt ger Bodelith Isaf oherwydd eu uchder a’r effaith y byddai hyn yn ei gael ar ardal Y Berwyn a’r Parc Cenedlaethol. Roedd hefyd pryderon am yr effaith amgylcheddol i’r ardal o’u gwmpas. Cytunwyd y gefnogi’r cais i godi mast newydd ym Mryn Derw a’r newidiadau i’r Orsaf Fedryddu Cynefail yng Nghapel Celyn.

Cafwyd cadarnhad bod y cais canlynol wedi cael ei ganiatáu:-

NP5/63/249A – Gosod tanc olew 1200 litr. Fferm Tynybont, Frongoch.

Materion Ariannol.

Datganiad Blyneddol.

Derbyniwyd y Datganiad yn nol gan UHY Hacker Young gyda’r cadarnhad olaf ei fod yn gywir. Cytunwyd i arddangos y ‘Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad’.

Cytunwyd i dalu’r canlynol:-

- i) UHY Hacker Young (archwilydd allanol)

Derbyniwyd cais ariannol gan Shelter Cymru. Cytunwyd i’w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

Unrhyw Fater Arall

A494 Cefnddwysarn/Sarnau.

Gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â'r Gweinidog Edwina Hart i weld os oedd unrhyw ddatblygiadau ynglŷn â chwblhau'r gwaith ar yr A494 yn Sarnau gan fod cerbyd arall wedi mynd i'r gors ym mis Gorffennaf.

Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-

Ffordd Cefnddwysarn i Cwm Main (o gyfeiriad yr A494).

Derbyniwyd cwynion fod y gwrych ger mynedfa Clwb Carafannau wedi gordyfu ac roedd cerddwyr yn gorfod camu allan i'r ffordd i'w basio. Gallai hyn fod yn beryg os oedd cerbyd yn dod i'w cyfarfod ar y gornel gerllaw. Hefyd roedd tîrffeddiannwr wedi gosod giât newydd a oedd yn agor allan i'r ffordd ac roedd pryder y gallai cerbydau ei daro pan fyddai'n cael ei agor neu os fyddai'n cael ei chwythu'n agor gan wynt yn y nos.

Llwybr cyhoeddus 'Stryd Pont Faen', Glanrafon.

Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Bartneriaeth i weld os oedd posib i'r llwybr gael ei glirio gan nad oedd y cyhoedd yn gallu ei ddefnyddio oherwydd y gordyfiant.